**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caaerdydd
CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales

9 Rhagfyr 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd. Rwy'n croesawu sylw'r pwyllgor at y materion hyn.

Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar ein cynllun addasu presennol ar newid hinsawdd, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n ymwybodol o ran hinsawdd, ar 7 Rhagfyr. Mae hyn wedi cynnwys cryn fewnbwn gan swyddogion sy'n gweithio ar draws y llywodraeth ac o'r herwydd mae gen i ofn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl yn wreiddiol. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma yn ogystal ag ystyried mesurau pellach y gallai fod eu hangen, yn sgil trydydd asesiad annibynnol risg hinsawdd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC). Yn ogystal, rydym wedi comisiynu'r CCC i gynnal asesiad annibynnol o gynnydd a blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer addasu i newid hinsawdd yng Nghymru, a gyhoeddir yn ystod haf 2023.

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad i'n cynllun addasu presennol. Mae swyddogion polisi yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd risg penodol a godwyd gan y CCC ac rydym wedi nodi'r camau ychwanegol sy'n cael eu cymryd o fewn adroddiad cynnydd Cymru sy'n effro i'r hinsawdd. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio i ddatblygu dull strategol gwell a diweddarwyd ar gyfer ein cynllun cenedlaethol nesaf, a rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn ystod hydref 2024. Bydd hyn yn cael ei lywio gan gyngor diweddaraf y CCC ar risg hinsawdd a'u hadroddiad cynnydd annibynnol sydd ar ddod ar Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau hefyd, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fod y Cyfrif Allyriadau Cymru Net llawn y mae ein targedau cyfreithiol wedi'u seilio arno hefyd wedi'i gyhoeddi. Bydd y Cyfrif yn cael ei nodi yn ein Datganiad Terfynol deddfwriaethol ar gyfer cyfnod cyntaf y Gyllideb Garbon, gan ddangos yn dryloyw y dadansoddiad o ddata, y dewisiadau cyfrifo carbon terfynol a'r cynnydd mewn perthynas â'n Cynllun cyntaf Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel Cymru | LLYW.CYMRU.

Bydd y Datganiad hefyd yn cymryd golwg ehangach, gan ddarparu'r asesiad cyntaf o'r allyriadau nid yn unig a gynhyrchir yng Nghymru, ond a gynhyrchir gan Gymru drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu defnyddio. Dim ond drwy ystyried y darlun ehangach hwn ac ysgwyddo ein cyfrifoldeb byd-eang y gallwn ni wir ddiogelu ein byd gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol a byddwn yn hapus i fynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau pellach sydd gennych.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd